## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu—

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022,
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020, a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn rhestru nifer o offerynnau a darpariaethau sy'n diwygio'r Rheoliadau uchod ac a ddiwygiodd Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020. Mae'r offerynnau a'r darpariaethau a restrir yn yr Atodlen hefyd wedi eu dirymu gan y Rheoliadau hyn.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn.